



Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 Diogelwch plant ar-lein

28 Mawrth 2017
SB 19/2017

Roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cyfres o gwestiynau am fynediad i blant at y rhyngwrwd a diogelwch ar-lein. Gofynnwyd i'r rhieni pa ddyfeisiau yr oedd eu plant yn eu defnyddio i fynd ar y rhyngwrwd, pa weithgareddau yr oedd eu plant yn eu gwneud ar-lein, a faint roedd rhieni yn ei wybod ac yn ymwneud â diogelwch eu plant ar-lein.

Y prif ganfyddiadau

- Roedd 95% o blant rhwng 7 ac 15 oed yn defnyddio'r rhyngwrwd gartref.
- Tabled neu ddyfais llaw arall (71%) oedd ddyfais a ddefnyddid amlaf gan y plant.
- Roedd 64% o blant rhwng 7 a 15 oed, sy'n defnyddio'r rhyngwrwd y tu allan i'r ysgol, yn mynd ar lwyfan dysgu ar gyfer yr ysgol, ac roedd 67% yn defnyddio'r rhyngwrwd i ddod o hyd i wybodaeth arall ar gyfer gwaith ysgol.
- Teimlai 87% o rieni fod eu plentyn yn gwybod sut i fod yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngwrwd.
- Roedd 56% o gartrefi â phlant rhwng 7 a 15 oed yn defnyddio hidlyddion rheolaeth rhieni.
- Roedd dadansoddiad pellach yn dangos bod y rhieni'n fwy tebygol o ddefnyddio hidlydd rheolaeth rhieni pan fo mwy na dau blentyn yn byw yn y cartref; pan fo'r rhiant yn defnyddio'r rhyngwrwd hefyd; pan fo'r plentyn yn 12 oed neu'n iau; a phan fo gan y rhiant gymwysterau TGAU A i C o leiaf.

56%
o gartrefi â
phlant 7-15 oed yn
defnyddio ffilter o
dan reolaeth rhieni



Am y bwletin hwn

Mae'r bwletin hwn yn darparu dadansoddiad mwy manwl o ganlyniadau'r cwestiynau ynglŷn â mynediad at y rhyngwrwd a diogelwch plant ar-lein, a gafodd eu cynnwys am y tro cyntaf yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15.

Mae'r holiadur llawn ar gael ar [dudalennau gwe yr Arolwg Cenedlaethol](#).

Mae tablau ychwanegol ar gael drwy [StatsCymru](#).

Yn y bwletin hwn

Cyflwyniad	2
Defnyddio'r rhyngwrwd	3
Diogelwch ar y rhyngwrwd	5
Dadansoddiad pellach	7
Termau a diffiniadau	8
Gwybodaeth allweddol am ansawdd	9

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau sy'n effeithio ar bobl a'u hardal leol. Cafodd prif ganlyniadau arolwg 2014-15, sydd wedi'u seilio ar fwy na 14,000 o gyfweiliadau wyneb yn wyneb, eu cyhoeddi gyntaf ym mis Mehefin 2015. Dechreuodd fersiwn helaethach o'r Arolwg Cenedlaethol yn 2016, i gwmpasu pynciau tebyg yn ogystal â detholiad o bynciau o bedwar arolwg arall y mae wedi cymryd eu lle. Caiff canlyniadau cyntaf yr arolwg newydd eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2017.

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod plant yn gallu defnyddio technoleg yn ddiogel, ac mewn ffordd sy'n cefnogi eu profiad o ddysgu, a hynny y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol.

I gefnogi'r ymrwymiad hwn, fe wnaeth Llywodraeth Cymru lansio Hwb+ yn 2012, sef y llwyfan dysgu rhithiol ar gyfer Cymru gyfan, a [Hwb](#), y storfa cynnwys digidol genedlaethol, yn 2014. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi addysg a chodi ymwybyddiaeth am ddefnyddio'r rhyngwrdd yn ddiogel drwy fentrau fel [360 degree safe Cymru](#) – sef y pecyn hunanasesu ar ddiogelwch ar-lein ar gyfer ysgolion yng Nghymru, a'r [Adnodd Diogelwch Ar-lein](#).


Gofynnwyd cwestiynau'r Arolwg Cenedlaethol ar ddiogelwch ar-lein i'r rheini er mwyn cael gwybodaeth arbennig i Gymru am y dyfeisiau a ddefnyddir a pha weithgareddau a wneir ar y rhyngwrdd gan blant rhwng 7 a 15 oed. Gofynnwyd hefyd i rieni â phlentyn yn y grŵp oedran hwn sut roeddent yn delio â mater diogelwch ar y rhyngwrdd gyda'u plentyn. Mae'r bwletin hwn yn nodi'r canlyniadau.

Os oedd mwy nag un plentyn yn y grŵp oedran yn y cartref dewiswyd un plentyn ar hap a gofynnwyd i'r rhiant feddwl am y plentyn hwn wrth ateb y cwestiynau. Mae'r [holiadur](#) llawn, gyda chwestiynau am ddiogelwch ar-lein, yn ogystal â chwestiynau am amrywiaeth o bynciau eraill yr Arolwg Cenedlaethol, ar gael ar [dudalennau gwe Arolwg Cenedlaethol Cymru](#). Gellir gweld tablau ychwanegol drwy [StatsCymru](#). Mae rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg, ynghyd â diffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn y bwletin, ar gael yn yr adran [Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd](#) ar ddiwedd y bwletin hwn.

Defnyddio'r Rhyngrwyd

Roedd 95% o blant rhwng 7 ac 15 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd gartref. Fel y gwelir yn Siart 1, tabled neu ddyfais llaw oedd y ddyfais a ddefnyddir amlaf i fynd ar y rhyngrwyd gan y criw yma o blant (defnyddir gan 71%).


Siart 1: Dyfeisiau a ddefnyddir gan blant i fynd ar y rhyngrwyd gartref



Mae plant yn cael mwy a mwy o waith cartref sy'n gofyn iddynt fynd ar y rhyngrwyd, a defnyddio gliniadur neu gyfrifiadur desg fyddai orau. Felly gofynnwyd i rieni'r 34% o blant nad oedd yn defnyddio gliniadur neu gyfrifiadur desg gartref a oedd eu plentyn yn defnyddio'r rhyngrwyd rywle arall y tu allan i'r ysgol. Roedd 42% o'r plant yn defnyddio'r rhyngrwyd yng nghartref rhywun arall, a 10% yn defnyddio'r rhyngrwyd mewn adeilad cyhoeddus, fel llyfrgell neu ganolfan gymunedol.

Mae Siart 2 yn dangos bod canran y plant a ddefnyddiodd ffôn symudol neu ffôn clyfar i fynd ar y rhyngrwyd gartref wedi cynyddu'n sydyn wrth iddynt fynd yn hŷn. Roedd 25% o blant rhwng 7 a 10 oed a oedd yn mynd ar y rhyngrwyd gartref yn defnyddio ffôn symudol neu ffôn clyfar, o gymharu â 71% o blant rhwng 14 a 15 oed.


Siart 2: Defnyddio ffôn symudol neu ffôn clyfar i fynd ar y rhyngrwyd, yn ôl oedran y plentyn



Gofynnwyd i rieni o blant sy'n defnyddio'r rhyngrwyd y tu allan i'r ysgol pa weithgareddau yr oedd eu plant yn defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer. Mae Siart 3 yn dangos bod 64% o blant, yn ôl rhieni, yn defnyddio'r rhyngrwyd i fynd ar lwyfannau dysgu ar gyfer yr ysgol, ac roedd 67% i blant yn defnyddio'r rhyngrwyd i ddod o hyd i wybodaeth arall am waith ysgol. Roedd canran y plant a oedd yn defnyddio'r we ar gyfer gweithgareddau'n ymwneud â'r ysgol yn cynyddu gydag oedran y plentyn. Yn 7-10 oed, roedd 23% o blant yn defnyddio llwyfan dysgu Hwb ar gyfer ysgolion, ac roedd 62% yn defnyddio'r rhyngrwyd i ddod o hyd i wybodaeth arall ar gyfer gwaith ysgol. Ymysg plant rhwng 14 to 15 oed, roedd hyn yn codi i 33% yn mynd ar Hwb, a 73% yn defnyddio'r rhyngrwyd i ddod o hyd i wybodaeth arall ar gyfer gwaith ysgol.

Ymysg gweithgareddau cyffredin eraill ar y rhyngrwyd roedd gemau ar-lein (46%) a rhwydweithio cymdeithasol (41%).


Siart 3: Gweithgareddau a wneir gan blentyn ar y rhyngrwyd



Roedd 41% o'r holl blant rhwng 7 a 15 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer rhwydweithio cymdeithasol, ond roedd hyn yn amrywio'n fawr yn ôl eu hoedran. Mae Siart 4 yn dangos bod 8% o blant 7-10 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer rhwydweithio cymdeithasol ond roedd y ganran hon yn codi i 84% ar gyfer plant 14-15 oed, gan olygu mai rhwydweithio cymdeithasol yw'r gweithgaredd mwyaf poblogaidd ar y rhyngrwyd ymysg y grŵp oedran yma. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau rhwydweithio cymdeithasol yn dweud yn eu telerau a'u hamodau mai'r isafswm oedran yw 13, ond dengys y canlyniadau fod plant yn defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer rhwydweithio cymdeithasol cyn iddynt fod yn 13 oed. Dywedodd rhieni fod 32% o blant 11 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer rhwydweithio cymdeithasol, gan godi i 58% ymysg plant 12 oed, a 77% ymysg plant 13 oed.

Ni chasglwyd manylion y gwefannau neu'r gwasanaethau penodol a ddefnyddid. Ar y cyfan, roedd bechgyn a merched yn gwneud yr un gweithgareddau ar-lein, ac i raddau tebyg i'w gilydd. Ond, roedd 60% o'r bechgyn yn defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer chwarae gemau, o gymharu â 32% o ferched.


Siart 4: Defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer rhwydweithio cymdeithasol, yn ôl oedran y plentyn



Diogelwch ar y rhyngrwyd

Gofynnwyd i rieni a oedd eu cartref yn defnyddio hidlyddion rheolaeth rhieni, megis 'Net Nanny' neu hidlyddion eraill a ddarperir gan eu darparwr gwasanaeth rhyngrwyd (ISP). Fel y gwelir yn Siart 5, roedd 56% o gartrefi â phlant yn defnyddio hidlyddion rheolaeth rhieni, nid oedd 32% yn defnyddio hidlyddion, ac roedd 12% heb glywed am hidlyddion ar gyfer y rhyngrwyd.


Siart 5: Defnyddio hidlyddion rheolaeth rhieni



Roedd cartrefi â mwy o blant yn fwy tebygol o ddefnyddio hidlyddion rheolaeth rhieni. Gyda 52% o gartref ag un plentyn yn defnyddio hidlydd, roedd hyn yn codi i 62% ymysg cartrefi â 3 neu ragor o blant. Roedd rhieni a oedd yn defnyddio'r rhyngrwyd eu hunain yn fwy tebygol o osod hidlydd rheolaeth rhieni yn eu cartref (57%) o gymharu â rhieni nad oedd yn defnyddio'r rhyngrwyd eu hunain (41%).

Gofynnwyd i'r rhieni a oedd eu plentyn yn gwybod sut i fod yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Fel y gwelir yn Siart 6, roedd 87% o rieni yn cytuno (yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno) bod eu plentyn yn gwybod sut i fod yn ddiogel.

Siart 6: Cytundeb rhieni fod plentyn yn gwybod sut i fod yn ddiogel ar-lein




Roedd canran y rhieni a oedd yn cytuno'n gryf fod eu plentyn yn gwybod sut i fod yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngwrwd yn uwch os oedd eu plentyn yn hŷn. Roedd 36% o rieni â phlentyn 7-10 oed yn cytuno'n gryf fod eu plentyn yn gwybod sut i fod yn ddiogel ar y rhyngwrwd, gan godi i 58% o rieni â phlentyn 14-15 oed.

Dywedodd 42% o rieni fod athrawon eu plentyn yn siarad yn aml â'r plentyn am ddiogelwch ar y rhyngwrwd, roedd 47% siarad â'u plentyn weithiau am ddiogelwch ar y rhyngwrwd, ac 11% yn siarad â'u plentyn yn anaml neu byth am ddiogelwch ar y rhyngwrwd.

Gofynnwyd i'r rhieni hefyd a oeddent wedi dweud wrth eu plentyn sut i fod yn ddiogel ar-lein. Roedd 75% ohonynt wedi dweud wrth eu plentyn i fynd ar rai gwefannau; 84% wedi dweud wrthynt am beidio â chyfarfod neb yr oeddent wedi'i gyfarfod ar-lein yn unig; 89% wedi dweud wrthynt am beidio â siarad â dieithriaid ar-lein; a 91% wedi dweud wrthynt am beidio â rhannu gwybodaeth bersonol. Roedd canran y rhieni a oedd wedi dweud wrth eu plentyn sut i aros yn ddiogel ar-lein yn cynyddu gydag oedran y plentyn. Roedd 90% o rieni â phlentyn 7-10 oed wedi siarad â'u plentyn am un o leiaf o'r agweddau uchod ar ddiogelwch ar y rhyngwrwd, o gymharu â 98% o rieni â phlentyn 14-15 oed.

Mae Siart 7 yn dangos i ble y mae rhieni yn mynd i gael cyngor neu wybodaeth am ddiogelwch ar y rhyngwrwd ar gyfer eu plentyn. Roedd 50% o'r rhieni a holwyd yn dweud y byddent yn cael gwybodaeth ar-lein, tra oedd 24% yn dweud y byddent yn gofyn i ysgol eu plentyn am gyngor neu wybodaeth. Roedd rhieni eraill a ffrindiau yn ffynhonnell gyffredin arall (19%). Roedd 8% o rieni yn defnyddio taflenni gwybodaeth neu'r wefan "[Thinkuknow](#)" i gael gwybodaeth.

Siart 7: Ffynonellau cyngor neu wybodaeth i rieni am ddiogelwch ar y rhyngwrwyd i blant



Dadansoddiad pellach

Gwnaethpwyd dadansoddiad manylach i edrych ar y ffactorau a allai gyfrannu at ddylanwadu ar y canlynol:

- a yw plentyn yn defnyddio llwyfan dysgu ar gyfer yr ysgol; ac
- a yw cartref yn defnyddio hidlydd rheolaeth rhieni.

Roedd y dull a ddefnyddir ymhob achos yn caniatáu inni edrych ar effaith un ffactor gan gadw'r ffactorau eraill yn ddigynnewid (a elwir weithiau'n 'rheoli ar gyfer ffactorau eraill').¹

O ran defnyddio llwyfannau dysgu ar gyfer yr ysgol, buom yn edrych ar ffactorau sy'n cynnwys deiliadaeth, oedran y plentyn, rhyw'r plentyn, cymhwyster uchaf y rhiant², statws economaidd, ac amddifadedd materol y cartref.³ Ar ôl rheoli ar gyfer y ffactorau hyn, roedd y canlyniadau fod y plant sydd fwyaf tebygol o ddefnyddio llwyfan dysgu ar gyfer yr ysgol yn blant hŷn, a bod gan eu rhieni gymwysterau TGAU graddau A - C (neu gyfwerth) ac uwch.

Fel y trafodwyd eisoes, mae croes-dablu'n dangos bod nifer y plant yn y cartref ac a oedd y rhiant yn defnyddio'r rhyngwrwyd ei hun ai peidio yn gysylltiedig â defnyddio hidlyddion rheolaeth. Bu dadansoddiad pellach yn edrych ar y ffactorau hyn yn ogystal â deiliadaeth, oedran y plentyn, amddifadedd materol³, rhyw'r plentyn, a chymwysterau'r rhiant². Ar ôl rheoli ar gyfer y ffactorau hyn, roedd y canlyniadau'n cadarnhau bod mwy na dau o blant gan y rheini mwyaf tebygol o

¹ Gelwir y dull hwn yn atchweliad logistaidd. Ceir rhagor o wybodaeth am y dull yn yr [adroddiad technegol hwn](#)

² I gael diffiniad o'r cymwysterau sydd ymhob categori, gweler [Termau a Diffiniadau](#)

³ Gweler [Termau a Diffiniadau](#)

ddefnyddio'r hidlyddion; roeddent yn defnyddio'r rhyngrwyd eu hunain; roedd ganddynt blant iau; a chymhwyster TGAU graddau A - C (neu gyfwerth) ac uwch.

Termau a diffiniadau

Cartref

Diffinnir cartref yn un person sy'n byw ar ei ben ei hun neu grŵp o bobl (nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac yn rhannu gofal tŷ - sef rhannu lolfa neu ystafell fyw neu o leiaf un pryd y dydd.

Rhiant

Yn y bwletin hwn, mae 'rhiant' yn cyfeirio at riant neu warcheidwad cyfreithiol plentyn sy'n byw yn yr un cartref.

Amddifadedd materol

Mae amddifadedd materol yn fesuriad sydd wedi'i ddylunio i ganfod canlyniadau tlodi tymor hir i gartrefi, yn hytrach na straen ariannol tymor byr. Gofynnwyd cwestiynau i ymatebwyr i ganfod a oedd eu cartref yn gallu fforddio cyfres o bethau fel: cadw'r tŷ yn ddigon cynnes, cynilo'n rheolaidd, neu gael gwyliau unwaith y flwyddyn.

Caiff y sgôr amddifadedd materol ei chyfrifo fel bod person sy'n gallu fforddio popeth yn cael sgôr o 0 a bod person sydd eisiau, ond heb fod yn berchen ar ddim un o'r eitemau y gofynnir amdanynt, yn cael sgôr o 100. Rhoddir sgôr uwch i gartrefi nad oes ganddynt yr eitemau hynny sydd gan y rhan fwyaf o gartrefi yn barod. Caiff y rhai sydd â sgôr o 25 neu fwy eu hystyried yn 'amddifadus yn faterol'. Mae'r rhestr lawn o'r cwestiynau a ofynnwyd ar gael ar dudalen 80 o [Holiadur 2014-15](#).

Cymwysterau

Mae cymwysterau uchaf yr ymatebwyr wedi'u grwpio yn ôl lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol: lefel 1 yw'r lefel gymwysterau isaf ac mae lefel 8 yn cyfateb i radd doethuriaeth neu gymhwyster cyfwerth. Ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol, mae'r ymatebwyr wedi'u gosod mewn 5 grŵp: mae'r rhai sydd heb gymwysterau wedi'u gosod yn y categori isaf, ac mae ymatebwyr sydd â chymwysterau ar lefelau 4 i 8 wedi'u grwpio gyda'i gilydd yn y categori cymwysterau uchaf.

[Rhagor o wybodaeth am lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol](#)

Er mwyn darparu disgrifiadau mwy ystyrlon o'r cymwysterau, defnyddiwyd y disgrifiadau byr hyn yn y bwletin hwn.

Lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol	Disgrifiadau byr a ddefnyddir yn y siartiau
Lefelau 4-8 y Fframwaith	Addysg uwch (Lefel 4+)
Lefel 3 y Fframwaith	Safon Uwch a chymwysterau cyfwerth (Lefel 3)
Lefel 2 y Fframwaith	TGAU graddau A i C a chymwysterau cyfwerth (Lefel 2)
Islaw lefel 2 y Fframwaith	TGAU islaw gradd C (islaw Lefel 2)
Dim cymwysterau	Dim cymwysterau

Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Cefndir

Cynhaliwyd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2012-15 gan TNS-BMRB a Beaufort Research ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau a nodir yn y bwletin hwn wedi'u seilio ar gyfweiliadau a gwblhawyd yn 2014-15 (1 Ebrill 2014 - 12 Ebrill 2015) (cafodd y gwaith maes ei ymestyn ychydig y tu hwnt i flwyddyn, er mwyn cynyddu maint y sampl).

Bob blwyddyn, dewiswyd tua 25,000 o gyfeiriadau ar hap o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post Defnyddwyr Bach y Post Brenhinol. Ymwelodd cyfweilwyr â phob cyfeiriad, dewiswyd un oedolyn (16+ oed) ar hap yn y cartref, a chynhaliwyd cyfweiliad 25 munud wyneb yn wyneb â'r oedolyn hwnnw, gan ofyn am ei farn am amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio arno a'i ardal leol. Cwblhawyd cyfanswm o 14,285 o gyfweiliadau yn 2014-15. Mae'r dadansoddiadau yn y bwletin hwn wedi'u seilio ar y 2,200 o ymatebwyr a oedd â phlentyn rhwng 7 a 15 oed.

Dehongli'r canlyniadau

Dim ond ar yr ymatebwyr hynny a roddodd ateb i'r cwestiwn perthnasol y mae'r canrannau a nodir yn y bwletin hwn wedi'u seilio. Mae sawl rheswm pam na cheir ateb i gwestiynau, gan gynnwys pobl yn gwrthod neu'n methu ag ateb cwestiwn penodol ac adegau pryd nad yw'r cwestiwn yn berthnasol i'r ymatebydd.

Os nodwyd cysylltiad rhwng dau ffactor, nid yw hyn yn golygu bod un yn achosi'r llall. Bydd angen dadansoddiad manylach i ganfod a yw un ffactor yn achosi newid mewn un arall. Mae dadansoddiad atchweliad yn ddull o ganfod pa ffactorau sy'n debygol o fod yn bwysig - gweler [isod](#).

Mae gwiriadau ar waith i sicrhau mai'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar yr adeg ei gyhoeddi sy'n cael eu dyfynnu.

Caiff canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol eu pwysoli i wneud iawn am y tebygolrwydd o ddethol mewn modd anghyfartal a gwneud iawn am ddiffyg ateb gwahaniaethol (h.y. i sicrhau bod dosbarthiad oedran a rhyw y set ddata derfynol yn cyfateb i boblogaeth Cymru).

Ansawdd y data

Statws Ystadegau Gwladol

Mae ['Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol](#).

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau gwladol yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth i'r cyhoedd.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwyllir gan Ystadegau Gwladol. Os down i bryderu ynghylch p'un a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pryd nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

Adroddiad ansawdd

Mae [adroddiad ansawdd](#) cryno ar gael, sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am ansawdd yr arolwg ynghyd â chrynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd i lunio'r canlyniadau.

Amrywioldeb samplu

Mae amcangyfrifon o'r Arolwg Cenedlaethol yn agored i ryw faint o ansicrwydd. Mae rhan o'r ansicrwydd yn deillio o'r ffaith y bydd unrhyw sampl o'r boblogaeth a ddewisir ar hap yn rhoi canlyniadau ychydig yn wahanol i'r canlyniadau a geid pe bai'r boblogaeth gyfan yn cael ei holi. Gelwir hyn yn gyfeiliornad samplu.⁴ Gellir defnyddio cyfyngau hyder i roi syniad o faint y cyfeiliornad samplu. Caiff y cyfyngau hyn eu cyfrifo o amgylch amcangyfrif o arolwg ac maent yn rhoi amrediad sy'n debygol o gynnwys y gwerth gwirioneddol. Mewn 95% o samplau arolwg, bydd y cyfwng hyder o 95% yn cynnwys y ffigur 'gwirioneddol' ar gyfer y boblogaeth gyfan (hynny yw, y ffigur y byddem yn ei gael pe byddai'r arolwg yn cwmpasu'r boblogaeth gyfan). Yn gyffredinol, po leiaf yw maint y sampl y mwyaf yw'r cyfwng hyder. Mae cyfyngau hyder wedi cael eu cynnwys yn tablau o ganlyniadau'r arolwg a gyhoeddwyd ar [StatsCymru](#).

Fel gydag unrhyw arolwg, mae'r Arolwg Cenedlaethol hefyd yn agored i amrywiaeth o ffynonellau cyfeiliornadau eraill: er enghraifft, oherwydd diffyg ateb; oherwydd efallai na fydd ymatebwyr yn dehongli'r cwestiynau fel y bwriadwyd iddynt wneud neu na fyddant efallai yn ateb yn gywir; ac oherwydd y gall cyfeiliornadau ymddangos wrth i ddata'r arolwg gael ei brosesu. Gelwir y mathau

⁴ Trafodir cyfeiliornad samplu yn fanylach yn yr [Adroddiad Ansawdd](#) ar yr Arolwg Cenedlaethol.

hyn o gyfeiliornad yn gyfeiliornad nad yw'n gyfeiliornad samplu, ac fe'u trafodir yn yr [adroddiad ansawdd](#) ar yr arolwg.

Gwahaniaethau arwyddocaol

Pan fo testun y datganiad hwn yn nodi gwahaniaeth rhwng dau o ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol (yn yr un flwyddyn), rydym wedi sicrhau nad yw'r cyfyngau hyder ar gyfer y ddau ganlyniad yn gorgyffwrdd. Mae hyn yn awgrymu bod y gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol (ond, fel y nodir uchod, nid yw mor fanwl â chynnal prawf ystadegol ffurfiol), h.y. bod llai na 5% (1 mewn 20) o siawns o gael y canlyniadau hyn os nad oes gwahaniaeth rhwng yr un dau grŵp yn y boblogaeth ehangach.

Mae'n llai tebygol y ceir casgliadau bod gwahaniaethau gwirioneddol rhwng grwpiau wrth wirio a yw dau gyfwng hyder yn gorgyffwrdd nag y mae wrth gynnal prawf ystadegol ffurfiol. Hynny yw, mae'n fwy tebygol o arwain at "ganlyniadau negyddol ffug": casgliadau anghywir nad oes gwahaniaeth gwirioneddol pan fo gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae hefyd yn llai tebygol o arwain at "ganlyniadau cadarnhaol ffug": casgliadau anghywir bod gwahaniaeth pan nad oes gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae cynnal llawer o gymariaethau yn cynyddu'r siawns y ceir canlyniadau cadarnhaol ffug. Felly, pan wneir llawer o gymariaethau, mae natur geidwadol y prawf yn fantais gan ei bod yn lleihau'r siawns hon (ond nid yw'n ei dileu).

Pan fo canlyniadau Arolwg Cenedlaethol yn cael eu cymharu â chanlyniadau o ffynonellau eraill, nid ydym wedi gwirio a yw cyfyngau hyder yn gorgyffwrdd.

Dadansoddiad atchweliad

Mae rhagor o fanylion am y modd y gwnaethom y dadansoddiad atchweliad yn yr adroddiad hwn, ac am y model atchweliad a gynhyrchwyd, ar gael yn yr [Adroddiad Technegol hwn](#).

Adroddiad technegol

Nodir gwybodaeth fanylach am fethodoleg yr arolwg yn yr [adroddiad technegol](#) ar yr arolwg.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant i Gymru, sef: Cymru sy'n fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach, a chyfrifol ar lefel fyd-eang, sydd â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Gwybodaeth am ddangosyddion a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig – [Sut mae mesur cynnydd cenedl? - Dangosyddion Cenedlaethol](#)

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Er nad yw'r ystadegau yn y datganiad hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol i unrhyw un o'r dangosyddion, gallent ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn cysylltiad â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

Diwygiadau

Mae [rhagor o wybodaeth am ein polisi diwygiadau ar gael](#) yma.

Polisi rhyddhau

Ceir gwybodaeth am y broses o ryddhau canlyniadau newydd ar [dudalennau gwe ystadegau Llywodraeth Cymru](#).

Argaeledd setiau data

Caiff y data y tu ôl i'r siartiau a'r tablau yn y datganiad hwn eu cyhoeddi mewn taenlenni ar [StatsCymru](#). Mae fersiwn heb enwau o'r set ddata flynyddol (y mae rhywfaint o wybodaeth wedi'i dileu ohoni i sicrhau cyfrinachedd), ynghyd â dogfennau ategol, wedi cael ei chadw yn [Archif Data y DU](#). I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni (gweler isod).

Defnydd pellach o'r canlyniadau

Caiff y canlyniadau eu defnyddio'n helaeth gan dimau polisi Llywodraeth Cymru, ond maent yn berthnasol hefyd i amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion allanol eraill.

Diweddariad Nesaf

Nid yw hwn yn gyhoeddiad rheolaidd.

Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen ar gael yn:

<http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?tab=current&lang=cy>

Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn, a gellir ei ddarparu drwy anfon neges e-bost i arolygon@cymru.gsi.gov.uk

Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael dan y [Drwydded Llywodraeth Agored f.3.0](#)

